

Papur Briffio Addysg

Canllawiau gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Sir Gaerfyrddin ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg / Addysg Grefyddol

Gwybodaeth

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnull a chynnal Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (SAC) ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) ac Addysg Grefyddol (AG). Y brif rôl yw cefnogi a monitro ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer CGM ac Addysg Grefyddol (AG), yn ogystal â'r Gweithredoedd Dyddiol o Addoliad ar y Cyd (DACW) statudol, mewn ysgolion a gynhelir yn y sir. Gweler y gofynion cyfreithiol a'r canllawiau isod.

Mae Jennifer Harding-Richards yn cefnogi Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe gyda datblygiad CGM, ac yn cydlynu rhwydweithiau a dysgu proffesiynol ar gyfer yr holl rhanddeiliaid yn y rhanbarth.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) - pob dysgwr hyd at gan gynnwys Blwyddyn 10:

- Mae CGM yn orfodol i bob disgybl; nid oes hawl gan rieni i'w tynnu allan.
 - Mae CGM yn ofyniad statudol o Gwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.
 - Rhaid cyflwyno CGM yn wrthrychol, yn feirniadol ac mewn modd sy'n cydnabod amrywiaeth o safbwyntiau.
 - Mae CGM yn rhan o Faes Dysgu a Profiad y Dyniaethau, ynghyd â'r pum datganiad o'r hyn sy'n bwysig, a fydd yn cyfrannu at ddysgwyr yn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm.
 - Dylid rhoi statws cyfartal i CGM â'r pynciau eraill o fewn maes y Dyniaethau.
 - Wrth ddylunio'r cwricwlwm CGM, rhaid i ymarferwyr roi sylw priodol i Ganllawiau CGM Llywodraeth Cymru yn ogystal â Syllabus Cytunedig CGM Sir Gaerfyrddin.
 - Rhaid i'r cwricwlwm CGM adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Cymru yn Gristnogol yn bennaf, gan ystyried hefyd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill sy'n bresennol yng Nghymru, a rhaid iddo hefyd adlewyrchu'r ffaith bod amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn bodoli yng Nghymru.
-
- Bydd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru fesul cam yn parhau, a chaiff yr hawl i dynnu disgyblion yn ôl ei dileu ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Addysg Grefyddol - pob dysgwr sydd ar hyn o bryd ym mlynnyddoedd 11-13:

- Mae gan rieni/gofalwyr yr hawl o hyd i dynnu eu plentyn/plant yn ôl o Addysg Grefyddol. Dylai fod gan ysgolion brotocol i gefnogi'r broses hon os bydd angen.
- Rhaid cyflwyno Addysg Grefyddol yn unol â'r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol a gytunwyd yn lleol (maes llafur 'etifeddiaeth' 2008 a gytunwyd).
- Rhaid cynnwys Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr cofrestredig, ac eithrio dysgwyr mewn darpariaeth feithrin, dysgwyr sy'n 19 oed neu'n hŷn, neu ddysgwyr dros 16 oed sy'n derbyn addysg ran-amser. Rhaid i Addysg Grefyddol adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn Gristnogol yn bennaf, gan ystyried hefyd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill sy'n bresennol ym Mhrydain Fawr.

Addoliad ar y cyd (wedi'i addasu o Estyn 2017)

- Yn berthnasol i bob disgybl gan fod y ddeddfwriaeth yn parhau heb ei newid ac wedi bod mewn grym ers amser maith.
- Rhaid i ysgolion ddarparu addoliad ar y cyd yn ddyddiol ar gyfer pob disgybl cofrestredig sy'n 5 oed neu'n hŷn.
- Dylai'r rhan fwyaf o weithredoedd addoliad ar y cyd fod yn rhai sydd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, o natur Gristnogol eang; mae hyn yn golygu y dylent adlewyrchu traddodiadau eang y cred Gristnogol.
- Gall addoliad ar y cyd ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod diwrnod ysgol.
- Gellir darparu addoliad ar y cyd i ddisgyblion mewn grwpiau o unrhyw faint, er enghraifft, fel dosbarth, grŵp blwyddyn, grŵp cam neu gymuned yr ysgol gyfan.
- Dylai addoliad ar y cyd ystyried cefndiroedd teuluol, oedrannau a galluoedd y disgyblion dan sylw.
- Gall rhiant ofyn i'w blentyn gael ei eithrio rhag addoliad ar y cyd, ac mae'n rhaid i ysgolion gytuno i geisiadau o'r fath. Nid oes angen i rieni roi rhesymau. Rhaid i'r ysgol oruchwylio disgyblion sy'n cael eu heithrio. Gall yr ysgol, drwy gytundeb â rhieni, ddarparu trefniadau amgen ar gyfer addoli ar gyfer un neu ragor o ddisgyblion sy'n cael eu heithrio, ond nid oes rhwymedigaeth arni i wneud hynny. Dylai prospectws yr ysgol gyfeirio at hawl rhieni i ofyn i'w plentyn gael ei eithrio rhag addoliad ar y cyd ac amlinellu'r trefniadau perthnasol.
- Gall disgyblion mewn dosbarthiadau chweched ofyn am gael eu heithrio rhag addoliad ar y cyd.
- Mae gan athrawon yr hawl i dynnu'n ôl o addoliad ar y cyd. Fodd bynnag, rhaid i'r ysgol sicrhau bod addoliad ar y cyd yn dal i gael ei ddarparu'n ddyddiol i bob disgybl.
- Mae canllawiau ac enghreifftiau wedi'u diweddarau ar gyfer Addoli ar y Cyd sy'n cydymffurfio ac yn ystyrlon yn cael eu datblygu gan aelodau o CYSAGCGM Sir Gaerfyrddin a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod Tymor yr Hydref.

Camau gweithredu

- Ystyriwch pa brosesau monitro sydd gan y corff llywodraethu ar waith i sicrhau bod disgwyliadau statudol ar gyfer CGM, AG a DACW, fel y nodir uchod, yn cael eu bodloni, a bod y profiadau dysgu cysylltiedig yn ystyrlon ac yn datblygu disgyblion drwy'r pedwar diben.
- Sicrhewch fod gan eich arweinwyr CGM/AG a DACW ddigon o amser a chefnogaeth i gyflawni eu rolau'n dda, gan gynnwys cael mynediad at y rhwydweithiau.

- Cysylltwch â Jennifer Harding-Richards os oes angen cymorth, neu os oes gennych arfer rydych yn teimlo a fyddai'n cefnogi ysgolion eraill

Cysylltiadau

Jennifer Harding-Richards
Marian Morgan

jennifer.harding-richards@swansea.gov.uk
mmcmorgan@carmarthenshire.gov.uk